Adroddiad ar

Y Cam Cynta

Y Cam Cynta
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA32 7AB

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Y Cam Cynta

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Y Cam Cynta |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Jennifer Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Llinos Evans |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Ystod oedran y plant | 6 mis i 5 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 10 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener 8yb – 6yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18 Hydref 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 4 Rhagfyr 2019 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/11/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Fe wnaethom hysbysu'r darparwr am Feysydd i'w Gwella lle nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Ni chyflwynwyd rhybudd, ond nodwyd bod hwn yn faes i'w gwella, a rhaid i'r Person Cofrestredig fynd i'r afael â hyn. Bydd gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei chynnwys mewn Crynodeb Camau Gwella a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn unig.

## Argymhellion

A1 Datblygu prosesau goruchwyliaeth ffurfiol

A2 Mynd I'r afael a'r meysydd o ddifyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae bron bob un o’r plant yn gyfathrebwyr hyderus iawn. Maent yn hyderus wrth wneud penderfyniadau, yn dilyn eu diddordebau’n annibynnol ac yn gwneud dewisiadau’n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn dewis caneuon i ganu, i chwarae tu fewn neu du allan a rhannu barnau am eu hoff bethau. Mae bron bob plentyn yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn rhwydd a hyderus, gan ddewis o’r ystod eang o weithgareddau yn annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymgartrefu’n llwyddiannus ac yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn datblygu perthynas agos gyda’r ymarferwyr ac mae llawer yn barod i sgwrsio’n anffurfiol gydag ymwelwyr. Er enghraifft, mae’r plant yn awyddus i ymwelwyr eistedd ar gadair wrth fwrdd er mwyn rhannu eu gweithgaredd. Maent yn cyfarch ei gilydd yn gyfeillgar ac yn mynd ati i gyd-chwarae’n hapus yn yr ardaloedd dysgu. Mae bron bob un yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio’n rhwydd â’r gweithdrefnau, sy’n creu sicrwydd  wrth iddynt ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio’n arbennig o dda â’u cyfoedion a’u hymarferwyr yn unol â’u hoedran. Maent yn datblygu perthynas garedig a pharchus tuag at eraill. Er enghraifft, mae’r plant ieuengaf wrth eu bodd yn chwifio at ymarferwyr yn y bore neu’n gwenu’n gyfeillgar at ffrindiau sy’n cyrraedd i chwarae. Maent yn dangos parch ac yn rhannu adnoddau gyda ffrindiau’n eithriadol o dda wrth chwarae ac yn ystod amser snac.

Mae bron bob plentyn yn dewis eu ardaloedd chwarae’n hyderus ac yn neu ymuno mewn gweithgareddau maent yn eu mwynhau. Maent yn gyffrous wrth glywed y gân ‘Mr Hapus’ ac yn ymuno’n y canu'n frwdfrydig. Mae bron bob plentyn yn gwrando ar gyfarwyddiadau ymarferwyr er mwyn eu cadw'n ddiogel, er enghraifft, wrth i ymarferwyr ofyn iddynt eistedd wrth fwrdd. Maent plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos yr hyn maent yn ei ddysgu i oedolyn. Mae plentyn yn frwdfrydig i ddangos ymarferwr y lliwiau gwahanol, ac i enwi hoff liw ei ffrind gorau. Mae gweddill y plant yn ymuno’n hyderus i enwi eu hoff lliwiau.

Mae bron bob plentyn yn arwain eu chwarae yn aeddfed gan ddewis adnoddau chwarae i gyflawni eu tasgau personol yn llwyddiannus. Mae bron bob plentyn yn datblygu annibyniaeth dda wrth ymgymryd â sgiliau hunain ofal, fel gwisgo cotiau a golchi dwylo. Maent yn cadw offer yn y mannau priodol ar ddiwedd gweithgareddau heb ymyrraeth oedolyn yn llwyddiannus. Mae bron bob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i’r llall gan gynnwys yr ardal allanol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu eu medrau'n llwyddiannus ar draws pob maes dysgu. Maent yn gwrando a chyfathrebu'n dda wrth chwarae a rhyngweithio gydag ymarferwyr a'u ffrindiau. Maent yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch ac yn ymgolli yn eu chwarae, er enghraifft wrth ofalu am y babi yn y tŷ.

Mae medrau llafar bron bob plentyn yn datblygu'n gyson dda, maent yn meddu ar sgiliau iaith ddatblygedig a geirfa eang. Er enghraifft, wrth drafod sut mae Sïon Corn yn dod mewn i'r tŷ adeg y Nadolig, mae rhai yn cynnig rhesymau dros eu ymatebion. Maent yn ymateb yn hyderus yn Gymraeg ac yn ymuno yn y canu yn ystod amser cylch yn frwdfrydig. Mae'r mwyafrif yn mwynhau creu marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer marcio mawr a bach yn llwyddiannus, er enghraifft wrth farcio gyda sialc tu allan, ac wrth addurno platiau papur.

Mae bron pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd buddiol i ddysgu am ddiwylliannau a chredoau eraill, trwy drafodaethau, straeon a gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn darllen amrywiaeth eang o lyfrau sy'n cynnwys cymeriadau o ddiwylliannau gwahanol er mwyn hyrwyddo'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol yn effeithiol.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y plant yn datblygu'n gadarn gyda'r mwyafrif yn trafod lliwiau a rhifau'n y Gymraeg. Maent yn arbrofi â siâp yn fedrus wrth adeiladu ac yn defnyddio geirfa fathemategol gywir i ddisgrifio safle wrth greu llwybr i'r tryc ar y carped. Mae'r mwyafrif yn cyfrif yn hyderus i ddeg, er enghraifft wrth gyd-gyfrif hyd at y dyddiad.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn defnyddio ystod o offer yn annibynnol i gyfoethogi'u chwarae a'u dysgu, megis chwarae rôl gyda chyfrifiaduron a thynnu lluniau gyda chamera digidol.

Mae medrau creadigol mwyafrif y plant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau doeth am yr offer i'w ddefnyddio wrth weithio'n greadigol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn medru mynegi eu hunain yn dda wrth chwarae rôl o fewn cyd-destun go iawn, er enghraifft maent yn rholio, gwasgu a thorri toes wrth wneud cacennau.

Mae bron bob plentyn yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol bras yn effeithiol, er enghraifft wrth balu a gwthio whilber. Maent yn weithgar yn gorfforol, yn unol â'u cam ddatblygiad. Mae'r mwyafrif o blant yn datblygu medrau cydsymud yn fedrus gyda rheolaeth gynyddol, er enghraifft wrth deithio mewn amryw ffyrdd i olchi dwylo, megis cropian a stompio.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae rhan fwyaf o ymarferwyr yn deall a gweithredu polisïau'n gyson ac yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn defnyddio’r arferion o’u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol ac yn deall eu dyletswyddau’n dda. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion cywir am ddigwyddiadau yn y lleoliad. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod rhieni’n arwyddo i dystio’u bod yn ymwybodol o unrhyw ddamwain neu foddion sydd wedi ei weinyddu. Mae ymarferwyr yn gweithredu prosesau cadarn er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo fel bo angen ac yn dilyn arferion effeithiol wrth drin bwyd a newid cewynnau. Mae ymarferwyr yn gweithredu systemau asesu risg ac yn cwblhau gwiriadau dyddiol effeithiol i adnabod a lleihau risgiau. Maent yn hyrwyddo bwyta’n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus ac yn sicrhau bod plant yn treulio amser tu allan yn yr awyr iach. Mae gan bron bob ymarferwr dystysgrifau cyfredol ar gyfer cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn eu parchu. Mae’r holl ymarferwyr yn gadael i blant ddewis adnoddau ac ardaloedd chwarae o’u diddordeb ac yn ymateb i’w hanghenion ar bob cyfle. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl arbennig ac yn siarad â’r plant yn addfwyn a thyner. Maent yn dilyn polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol mewn ffordd gyson. Er enghraifft, maent yn plygu i lawr at lefel y plant wrth drafod yn dawel materion megis rhannu, gan ddefnyddio strategaethau i dynnu sylw'r plant. Mae rhan fwyaf o ymarferwyr yn canmol y plant am fod yn gwrtais gan ddweud "da iawn!" ac yn eu clodfori wrth iddynt gwblhau tasg. Maent yn gwrando ar lais y plentyn yn ddiflino. Maent yn sensitif i anghenion plant ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu eu geirfa wrth iddynt chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfnod datblygiad a'u hanghenion. Maent yn ymateb i anghenion unigol plant yn brydlon. Mae yn llwyddo i drochi'r plant yn y Gymraeg mewn ffordd fedrus trwy ganeuon, cwestiynau, gweithgareddau â phwyslais penodol fel amser stori. Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn hyderus i ddilyn a mewnblannu unrhyw cymorth sydd angen ar blant. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu i blant sydd angen mwy o amser wrth newid o un gweithgaredd i’r llall fel eu bod yn ymuno yn y chwarae yn eu hamser eu hunain.

Mae ymarferwyr yn casglu gwybodaeth buddiol am hoffterau ac anghenion unigol plant cyn iddynt gychwyn mynychu'r lleoliad. Maent yn asesu ystod o medrau’r plant ac yn ymwybodol o'u camau datblygu nesaf. Mae’r broses o gynllunio gweithgareddau yn sicrhau bod llais y plant yn gryf ac yn datblygu amrywiaeth o sgiliau'r plant. Mae’r

ymarferwyr yn arsylwi ac asesu'r plant ifancaf wrth iddynt chwarae ac yn defnyddio'r wybodaeth er mwyn penderfynu ar gamau nesaf yn natblygiad y plentyn. Maent yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiad eu plant â rhieni yn rheolaidd.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar berthynas agos â'r plant ac yn deall eu hanghenion yn dda. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang sy'n ymateb i anghenion y plant yn briodol. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer darparu profiadau chwarae a dysgu symbyles sy'n datblygu holl fedrau'r plant yn gadarn. O ganlyniad, mae'r plant yn chwilfrydig, yn chwarae am gyfnodau estynedig ac yn ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau. Maent yn annog plant i fod yn annibynnol, er enghraifft, trwy estyn cot ac arllwys eu diodydd eu hun.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol sy'n annog plant i ddatblygu medrau rhifedd a llythrennedd yn effeithiol, megis cyfri'r nifero blant sy'n bresennol yn ystod amser cylch. Maent yn annog plant i feddwl am yr hyn y maent yn gwneud trwy holi ac ateb cwestiynau'n fedrus. Maent yn fodelu iaith lafar glir, gan ddefnyddio geirfa a phatrymau cystrawennol addas wrth sgwrsio'n naturiol gyda'r plant.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i gefnogi medrau digidol y plant yn effeithiol. Ceir ystod eang o adnoddau digidol ar draws yr ardaloedd, gan gynnwys camerâu, smotiau siarad a chwaraewr CD, sy'n annog plant i'w defnyddio i bwrpas. Maent yn defnyddio ystod o adnoddau pen agored ac offer darnau rhydd bach a mawr yn effeithiol i hyrwyddo medrau datrys problemau a meddwl plant yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau ystod o brofiadau dysgu a chwarae tu fewn a thu allan sy'n cael effaith cadarnhaol ar ddatblygu medrau modur mân a mawr y plant. Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus drwy gynllunio profiadau buddiol i blant fod yn fentrus. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu'n ymarferol ac i fod yn greadigol, megis cynllunio iddynt ddilyn rysáit i wneud siocled poeth yn y gegin a chymysgu paent tu allan.

Mae gan ymarferwyr ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd datblygiad plentyn.. Maent yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod cynlluniau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau gwerthfawr, yn cofnodi'n drwyadl ac yn rhannu gwybodaeth gyda'i gilydd yn fedrus. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yma'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n ymateb i anghenion unigol bob plentyn yn llwyddiannus.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy’n sbarduno chwarae plant yn effeithiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod lefel effeithiol o hylendid ar waith. Mae ganddynt amserlen lanhau a phrosesau rheoli heintiau da sy’n golygu bod y lleoliad yn lân, ac chaiff asesiadau risg ac ymarferion tân eu cynnal yn gyson i sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a gaiff eu cwblhau gan ymarferwyr i wirio risgiau i'r plant ac i'w dileu cymaint â phosibl. Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yr amgylchedd wedi’u cwblhau ac yn ymateb i unrhyw broblemau’n syth. Maent yn sicrhau bod polisïau, cofnodion a gwybodaeth berthnasol ar gyfer yr amgylchedd ar gael i ymarferwyr. Er enghraifft, wrth y drws mae ganddynt gopïau o bolisïau a chofnodion am drefniadau casglu plant a beth i wneud os nad yw plentyn wedi’i gasglu.

Mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer plant ac oedolion. Mae ganddynt swyddfa ar gyfer sgyrsiau cyfrinachol, a chegin ac ystafell staff ar wahân. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored wedi eu trefnu'n briodol gyda pharthau diddorol ar gyfer chwarae a dysgu sy’n addas ar gyfer oedran a lefel datblygiad y plant. Mae’r ardaloedd dysgu a chwarae yn cefnogi diddordebau’r plant ac yn eu galluogi i archwilio’n bwrpasol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol sy'n annog plant i grwydro o un gweithgaredd i'r llall yn annibynnol. Mae hyn yn cyfrannu at ddatblygu holl fedrau, sgiliau a dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn creu ymdeimlad cryf o berthyn. Er enghraifft, maent yn darparu arddangosfeydd o ffotograffau’r plant yn ymgymryd â’u gweithgareddau ac ar ymweliad i oriel grefft leol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar o ansawdd da. Caiff eitemau eu storio'n effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn lân ac mewn cyflwr uchel. Mae dodrefn a chyfleusterau addas ar gael, gan gynnwys cadeiriau a byrddau maint priodol er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfforddus. Mae hyn yn cyfrannu ar hybu annibyniaeth plant i nôl cyfarpar a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol yn llwyddiannus. Mae eu cyfleusterau tŷ bach a'r basnau golchi yn annog annibyniaeth plant ymhellach ac mae eu trefniadau newid cewynnau yn sicrhau ac yn parchu preifatrwydd plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o amrywiaeth yn y gymuned drwy ymweld â'r ardal leol yn ogystal â thrwy straeon a dathliadau traddodiadau gwahanol. Maent yn darparu nifer o deganau a llyfrau amlddiwylliannol sy’n cefnogi’r plant i ddatblygu dealltwriaeth gynnar o ddiwylliannau gwahanol yn llwyddiannus.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn, ac yn canolbwyntio ar wella’r ddarpariaeth a deilliannau’r plant yn effeithiol. Maent yn gosod

disgwyliadau uchel yn gyson dda trwy gefnogi a herio pawb i wneud eu gorau. Maent yn mynd i'r afael â phryderon mewn modd priodol, gan gyfeirio plant at asiantaethau cywir er mwyn cynorthwyo unigolion yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu'n llyfn ar sail dydd i ddydd. Mae arweinwyr wedi cwblhau hysbysiadau ar gyfer newidiadau i'r gwasanaeth.

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu'r materion y maent yn dymuno'u gwella ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn effeithiol. Maent yn casglu ac ystyried barn ymarferwyr a rhieni a gofalwyr yn effeithiol, gan gasglu adborth yn achlysurol drwy holiaduron. Maent yn cynnig cyfleoedd i ymarferwyr gyfrannu at hunan arfarniad y lleoliad yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r arweinwyr yn llwyddo i wella'r ddarpariaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi cyd-weithio i ddatblygu ardal goedwig ar dir yr ysgol gyfagos er mwyn cynnig ystod fwy eang o brofiadau i'r plant.

Mae arweinwyr yn defnyddio dogfennaeth i fyfyrio ar gryfderau'r ddarpariaeth a chynnydd y plant yn bwrpasol. Yn ogystal, maent yn gosod targedau ystyrlon i weithredu arnynt ac yn arfarnu eu gwaith yn dymhorol, gan adnabod y ffordd ymlaen er mwyn sicrhau datblygiad a gwelliant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi cwblhau'r Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS).

Mae tystiolaeth gadarn o ddefnydd Grant Amddifadedd Blynyddoedd Cynnar yn dangos defnydd effeithiol o gyllid a grantiau. Mae arweinwyr wedi datblygu ardal tu allan sy'n caniatáu annibyniaeth i blant wneud dewisiadau dros ble i chwarae yn effeithiol. Mae hyn wedi cael effaith cadarnhaol ar ddatblygiad ym medrau cymdeithasol a chorfforol y plant.

Mae arweinwyr yn creu cysylltiadau buddiol gydag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae ganddynt gysylltiadau cadarn gyda'r swyddogion cefnogi'r awdurdod, y llyfrgell a'r ysgol leol. Mae arweinwyr yn creu cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned ehangach ac yn gwahodd pobl lleol i siarad â'r plant, gan gynnwys ymweliadau gan bostmon yr ardal. Mae ymweliadau wythnosol â'r llyfrgell a gwersi nofio yn y ganolfan hamdden gyfagos yn cyfrannu at greu ymdeimlad o berthyn i'r gymuned yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn cyflawni prosesau recriwtio da. Maent yn cwblhau gwiriadau priodol addas gan gynnwys gwiriadau Datgelu a Gwahardd Gwasanaeth (DGG) cyn i staff ddechrau yn eu swydd. Mae arweinwyr yn trefnu staff yn effeithiol gan sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn derbyn arfarniadau blynyddol a goruchwyliaeth anffurfiol sy'n sicrhau cefnogaeth a chyfleoedd gwerthfawr i drafod materion o bryder. Mae hyn yn cyfrannu at sicrhau bod pob aelod o staff yn hapus ac yn derbyn datblygiad proffesiynol buddiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn cofnodi goruchwyliaeth yn ffurfiol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/01/2026